

Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad: **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Ty Hywel**

Dyddiad: **Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2012**

Amser: **08:30 - 09:02**

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cofnodion: BC(4)01-12

Aelodau'r Pwyllgor:

Rosemary Butler (Cadeirydd)
Peter Black
Jocelyn Davies
William Graham
Jane Hutt

Staff y Pwyllgor:

Anna Daniel (Clerc)

Eraill yn bresennol:

David Melding, y Dirprwy Lywydd
Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad
Aled Elwyn Jones, Clerc Eweithdrefnau
Peter Greening, Llywodraeth Cymru
Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd

1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion i'w cyhoeddi gan y Pwyllgor.

3. Trefn busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Ddydd Mawrth a ddydd Mercher, cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3(ii) Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor yr amserlen tair wythnos ar gyfer Busnes y Llywodraeth.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i amserlennu'r eitemau busnes a ganlyn:

Dydd Mercher 1 Chwefror 2012

- Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch cartrefi mewn parciau (Peter Black) (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

4. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: y Bil Diwygio Lles

4(i) **Cyngor gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

4(ii) **Papur gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth a chyngor gan yr Ysgrifenyddiaeth ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar gyfer gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil Diwygio Lles. Rhoddodd Arweinydd y Tŷ wybodaeth i'r Pwyllgor mewn ymateb i bwyntiau a godwyd yn y Nodyn Cyngor Cyfreithiol.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc gyflwyno adroddiad ar y Cynnig erbyn 20 Ionawr 2012 er mwyn caniatáu i'r Cynnig gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 24 Ionawr 2012. Cytunodd Arweinydd y Tŷ i glustnodi mwy o amser i drafod y Cynnig ac i ystyried clustnodi amser ar gyfer trafodaeth ehangach am y Bil ei hun.

5. The Local Better Regulation Office (Dissolution and Transfer of Functions Etc) Order 2011 (Saesneg yn unig)

5(i) **Cyngor gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

5(ii) **Papur gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty**

Bu'r Pwyllgor Busnes yn trafod a yw'n briodol i'r Cynulliad drafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig, the Local Better Regulation Office Order. Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ond is-ddeddfwriaeth ydyw: nid Bil Senedd y DU. Felly, nid oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol arno o dan Reol Sefydlog 29, fel y byddai'n wir mewn achos Bil.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r Cynulliad drafod y mater o gydsyniad a chytunodd i gyfeirio'r Gorchymyn at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn erbyn 25 Ionawr 2012 er mwyn galluogi iddo gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 31 Ionawr 2012.

Nododd Arweinydd y Tŷ ei bwriad i gyfarfod â Chadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i drafod y dull o ymdrin â'r Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod ymhellach y prosesau cydsyniad deddfwriaethol yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ei ymchwiliad i roi pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU.

6. Busnes Arall

6(i) Rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes: diwygio'r Rheolau Sefydlog

Nododd y Pwyllgor Busnes bapur yn amlinellu nifer o faterion gweithdrefnol y mae'n bosibl a ddaw gerbron y Pwyllgor dros y misoedd nesaf. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd angen mwy o amser arnynt i drafod y materion hyn a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth i edrych ar y posibilrwydd o amserlennu cyfarfodydd cyhoeddus ar brynhawn dydd Llun. Cytunodd yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi amserlen fwy manwl o gyfarfodydd i'w thrafod gan y Pwyllgor.